



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi
nos Fawrth, 15 Medi 2015 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the Antur Teifi Conference Room
on Tuesday, 15 September 2015 at 6.00pm.

Presennol/Present—**Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs Llwyd Edwards (*anhwylus/unwell*), Neal Jones

Cyflwyniad / Presentation:

Cathryn Morgan,

Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator, Ceredigion County Council

Gwahoddodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, Ms Morgan i agor y drafodaeth ynglŷn â gwneud cais am arian cymunedol i wella cyfleusterau meysydd chwarae yn y dref. Byddai'r grant ynghlwm â gwaith cynnal a chadw gan gontractwyr. Gellir symud y cyfarpar o faes chwarae Netpwl i Faes Chwarae Brenin Siôr 5ed neu hyd yn oed i'r Maes Sgrialu. Awgrym arall oedd y cyfle i uno'r gwaith gyda'r cyfle i ieuentid di-waith dderbyn hyfforddiant. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o ailwynebu'r maes sgrialu ac i dorri'r cloddiau ar y safle yno er mwyn ail-leoli'r cyfarpar diangen sydd yn Netpwl.

Mae Ms Morgan yn barod i drafod y cyfleoedd hyn gyda Paul Arnold, Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol y cyngor sir, a Gill Byrne (RAY Ceredigion). Mae'n barod hefyd i gysylltu â chwmni Tai Ceredigion i drafod y posibilrwydd o symud cyfarpar i faes chwarae Maesglas sydd wedi ei adael yn ddifrodol gan y cwmni. Mae Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (£126,000) ar gael i wella cyfleusterau mewn ardaloedd gwledig; mae angen 20% o fenthyciad cronol gan gynghorau. Cytunodd Ms Morgan ddychwelyd â rhagor o fanylion yn y dyfodol.

Diolchodd y Maer i Ms Morgan am ei chyflwyniad pwrpasol.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, invited Ms Morgan to open the discussion regarding the possibility of obtaining community benefits as a result of a contract with building companies which has an element of 'community benefits' built in. If there is a clear plan about how to move this forward, the contractors could do some work around the park in Netpool. There is the possibility of moving the equipment from Netpool to a more suitable location, i.e. King George 5th Playing Field, and landscaping and planting of shrubs in the old play park to transform it into more of a natural habitat / picnic place with bird and bat boxes and a pathway etc. There is also an opportunity of linking this play park project with the need to find work experience and placements for young people. The resurfacing of the skateboard park was also discussed and the trimming of hedges thereat to allow more space to accommodate the obsolete Netpool play equipment.

Ms Morgan is prepared to explore this further and to discuss the possibilities with Paul Arnold, Head of Municipal and Environmental Service with Ceredigion County Council, and Gill Byrne (RAY Ceredigion). She will also contact Tai Ceredigion regarding the placing of play equipment at the Maesglas play area which has been decimated by that company. The Community Rural Development Fund (£126,000) to improve facilities in rural areas was also considered; this required 20% match funding by councils. Ms Morgan agreed to report back to council with further information regarding all these issues.

Cllr Adams-Lewis thanked Ms Morgan for the useful information shared at the meeting.

Is-bwyllgor Cynllunio / Planning Sub-committee

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion.

Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A150580	Medical Hall 59 Pendre	Display of signage (1 x internally illuminated projector, 2 x non-illuminated window vinyls)	The council has no objection in principle to the signage, but considers it imperative that the signs include the Welsh translation "Fferyllfa Aberteifi" to adhere with the Welsh language policy adopted by the council.

Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis (*yr holl faterion cynllunio/all planning issues*)

Toileddau Cyhoeddus / Public Toilets

E-bost oddi wrth Menter Aberteifi ynglŷn â phenderfyniad Cyngor Sir Ceredigion i ddileu taliadau i fusnesau preifat gynnig defnydd eu toileddau i'r cyhoedd o 31 Hydref ymlaen.

E-mail from Menter Aberteifi regarding the cessation on 31 October of Ceredigion County Council payments for private organisations to open their toilets to the public.

Awgrymwyd bod y cyngor yn cynnig talu £500 am y flwyddyn nesaf o 1 Tachwedd 2015 i gadw'r cyfleusterau ar agor i'r cyhoedd yn Neuadd y Dref.

It was recommended that the council donates £500 for the next year from 1st November 2015 to enable the Guildhall facilities to remain open to the public.

Unrhyw fater arall / Any other business

Gohebiaeth / Correspondence:

(a) Ms Kirsty John –

Defnydd o anifeiliaid gwyllt i greu adloniant mewn syrcau.

The use of wild animals to entertain at circuses.

Eglurodd y Cyng. Catrin Miles y ddeddfwriaeth ynglŷn â thrwyddedu digwyddiadau cyffelyb.

Cllr Catrin Miles explained the legislation pertaining to similar events.

(b) Mr Rhys Harries, 5 Heol Gollen: Cais am gymorth ariannol.

Application for financial aid.

Gan nad oes hawl gan gynghorau tref a chymuned, tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (adran 137), estyn cymorth ariannol i unigolyn, awgrymwyd bod y clerc yn anfon yr wybodaeth ganlynol at yr ymgeisydd am gynllun y cyngor sir: Ceisiadau at Mrs Meinir Davies, Cynorthwy-ydd Cyfrifeg (Grantiau) / Gwasanaethau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion.

As town and community councils are prohibited by the Local Government Act 1972 under section 137 to financially support individuals. It was recommended that the clerk forwards the following information to the applicant regarding the county council's grant scheme for individuals:

Mrs Meinir Davies, Accountancy Assistant (Grants) / Financial Services, Ceredigion County Council

(c) Yr Arolygiaeth Gynllunio / The Planning Inspectorate:

Footpath 78/53, Bro Teifi – The Order will be determined following a local inquiry which is due to be held at 10.00am on Thursday, 28 January 2016 at the Guildhall, Cardigan.

(d) **Cystadleuaeth ar y Maes Sgrialu: Gan nad oedd cais swyddogol wedi ei wneud gyda'r cyngor am ddefnydd o'r maes, awgrymwyd y dylid anfon gwybodaeth i'r trefnydd am gyfrifoldebau yswiriant cyhoeddus pan gynhelir cystadleuaeth ar y maes.**

Competition on the Skateboard Park: As no official application had been made to the council to use the park, it was recommended that information regarding the responsibility of public liability insurance be forwarded to the organiser when an event is organised at the park.

- (e) **Dyweddodd y Cyng. Clive Davies ei fod wedi ei sefydlu yn ymddiriedolwr y Castell yn dilyn y cyfarfod blynyddol yn ddiweddar. Mae'r ffurflenni angenrheidiol wedi eu cwblhau.**

Cllr Clive Davies confirmed that he had been officially appointed as trustee of the Castle following the recent AGM and that all the appropriate paper work was in order.

Er gwybodaeth / For information

**Dydd Sul, 20 Medi: Ordinhad Christopher Frost yn ddiagon yn Eglwys y Santes Fair am 2.30yp.
Bydd Christopher yn gweinidogaethu fel curad yng Ngrŵp Eglwysi Aberteifi.**

Sunday, 20 September: The Ordination as Deacon of Christopher Frost at St Mary's Church at 2.30pm. Christopher will serve as curate in the Cardigan Group of Churches.

Nos Fercher, 23 Medi: Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned yn Ffestri Capel Mair am 7.00yh.

Wednesday, 23 September: The Annual General Meeting of the League of Friends of Cardigan Hospital & Community at Capel Mair vestry at 7.00pm.

Nos Lun, 28 Medi: Is-bwyllgor Rhoddion yn swyddfa'r clerc am 7.00yh.

Monday, 28 September: Grants Sub-committee at the clerk's office at 7.00pm.